

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cabinet Secretary for Social Justice, Housing and
Local Government

Rùnaire a' Chaibineit airson Ceartas Sòisealta, Taigheadas,
agus Riaghladh Ionadail

Shona Robison BPA/MSP



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

8fed o Fehefin 2022

DRAFFT

I Bob Parti yn y Sector Adeiladu ac Adeiladu Tai Preswyl,

Ysgrifennwn at y diwydiant heddiw i ailddatgan ein hymrwymiad i ddatrys yr argyfwng diogelwch tân ar gyfer perchnogion tai yr Alban a lesddeiliaid Cymru. Fel llywodraethau datganoledig, fe'n gorfodwyd gan Lywodraeth y DU i fabwysiadu dulliau ar wahân o fynd i'r afael â diogelwch tân yn ein hadeiladau canolig ac uchel ac rydym wedi cynyddu'r ymdrechion i ddod i gytundeb teg, fforddiadwy a thryloyw gyda datblygwyr. Nid yw'r digwyddiadau o fewn Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn newid dim ar y sefyllfa yng Nghymru a'r Alban.

Yr ydym yn dal yn gadarn na ellir datrys y materion yng Nghymru a'r Alban heb ymrwymiad parhaus gan ddatblygwyr a'r diwydiant adeiladu a hynny ar fyrder. Mae sicrhau bargaen deg a chyfartal i berchnogion tai drwy Gytundeb Adeiladau Mwy Diogel yr Alban ac i lesddeiliaid drwy Ymrwymiad Datblygwyr Llywodraeth Cymru yn hollol angenrheidiol – nid yn unig er mwyn sicrhau tegwch i berchnogion tai preswyl a lesddeiliaid ond i sicrhau bod pob parti yn ysgwyddo'r baich yn gymesur.

Rydym yn mynd i'r afael â'r llythyr agored hwn i'r diwydiant a'r cyhoedd i ddangos bod ein penderfyniad fel llywodraethau datganoledig i fynd i'r afael â materion cladin a diogelwch tân yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Ni welwn unrhyw reswm pam na ellir cytuno ar y Cytundeb a'r Ymrwymiad a llofnodi contractau cyfreithiol dros y misoedd nesaf o ystyried ymatebion cadarnhaol hyd yn hyn.

Ni allwn ganiatáu i ddiogelwch tân ddod yn fater 'aros i weld' ar draws y gwledydd. Edrychwn ymlaen at barhau â'r berthynas waith gref honno a chytuno ar y telerau fel y gellir

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

St Andrew's House, Regent Road, Edinburgh EH1
3DG

www.gov.scot

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

αβχδε αβχ α

rhyddhau perchnogion tai, lesddeiliaid a thenantiaid yr Alban a Chymru o broblemau cladin a diogelwch tân.

Yn ddiffuant,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Shona Robison BPA/MSP

**Cabinet Secretary for Social Justice, Housing and
Local Government**
Rùnaire a' Chaibineit airson Ceartas Sòisealta, Taigheadas, agus
Riaghladh Ionadail